**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**23 MAI 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 23 Mai 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, David Cox, Ian Dunbar, Carol Ellis, David Evans, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Derek Butler, Adele Davies-Cooke, Veronica Gay, Dave Hughes a Mike Peers

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mynychodd y canlynol fel Aelodau lleol:
Y Cynghorydd Mike Lowe (fel aelod Ward cyfagos) – ar gyfer Eitem 6.5 ar y Rhaglen (058024)
Y Cynghorydd Carolyn Thomas – ar gyfer eitemau 6.3 a 6.4 (055789) a (057943).

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth; Arweinydd Tîm - Cynllunio; Uwch Gynllunwyr; Cyfreithiwr, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

**1. EITEM FRYS**

Rhybuddiodd y Cadeirydd bod eitem frys – Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor, oedd heb ei chynnwys ar y rhaglen.

Cynigodd y Cynghorydd Ian Dunbar y dylid ethol y Cynghorydd Richard Lloyd yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ac fe eiliwyd y cynnig.

Cynigodd y Cynghorydd Richard Jones y dylid ethol y Cynghorydd Owen Thomas yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ac fe eiliwyd y cynnig.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Richard Lloyd fel Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**2. DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

**3. SYLWADAU HWYR**

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hychwanegu i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/documents/s49062/Late%20observations%20-%2023rd%20May%202018.pdf?LLL=0

Eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) bod diwygiad i'r sylwadau hwyr. Derbyniwyd hysbysiad o fewn y terfyn amser gan Mrs. L. Murtell a oedd yn dymuno siarad fel aelod o'r cyhoedd ar gyfer Eitem 6.4 ar y Rhaglen - Cais Amlinellol i godi annedd unllawr y tu cefn i Acrefield yn Acrefield, Erw Ffynnon, Stryd y Frenhines, Treuddyn.

## 4. COFNODION

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod ar 25 Ebrill 2018 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 5. EITEMAU I'W GOHIRIO

Cyn ystyried yr eitemau a argymhellwyd i'w gohirio, eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y materion canlynol:-

- Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn ddiweddar ond dim ond un dyddiad oedd wedi'i ddarparu ar gyfer yr Aelodau. Cytunwyd y byddai'r Prif Swyddog yn derbyn copi o'r cyflwyniad ac yn ail-ddarparu'r hyfforddiant ar gyfer yr Aelodau oedd wedi methu bod yn bresennol. Roedd dyddiad ar gyfer yr hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer 12 Gorffennaf am 5.30pm a byddai cadarnhad yn cael ei anfon at yr Aelodau ar e-bost maes o law.
- Byddai Aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn e-bost gan yr Uwch Gyfreithiwr yn nodi bod penderfyniad blaenorol gan y Pwyllgor Cynllunio ar Dollar Park wedi'i ystyried gan y Llys Apêl. Ni fu amser i ychwanegu'r adroddiad i'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod hwn, felly byddai'r penderfyniad yn cael ei adrodd yng nghyfarfod mis Mehefin. Roedd y penderfyniad yn cyfiawnhau holl waith y Swyddog Cynllunio ar y cais hwn.
- Byddai Aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn e-bost gan y Rheolwr Datblygu yn egluro penderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar ddatgymhwysiad paragraff 6.2 o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 a faint o bwysau a roddir i ddiffyg cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiad preswyl. Daw ymgynghoriad LlC i ben ar 21 Mehefin ac fe gynigiwyd bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Grŵp Cynllunio Strategol ar 15 Mehefin i gytuno ar ymateb i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor.

Nododd y Cynghorydd Richard Jones benderfyniad diweddar y Llys Apêl, fel y nodwyd uchod, ac awgrymodd, gan nad oedd Emma Hancock, y Swyddog Cynllunio a ymdriniodd â'r cais, yn gweithio i'r Awdurdod mwyach, dylid anfon llythyr ati yn diolch iddi am ei gwaith ac yn ei hysbysu o'r penderfyniad, a oedd yn bwysig o ran safbwynt broffesiynol. Cytunodd y Pwyllgor bod y Cadeirydd yn anfon llythyr at Emma Hancock yn dilyn y cyfarfod.

Nododd y Cynghorydd Chris Bithell ei fod wedi mynychu cyfarfod gyda Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn ddiweddar, ac fe gyhoeddwyd y byddai Polisi Cynllunio TAN 1 yn cael ei atal. Roedd wedi croesawu'r cyhoeddiad ond nododd mai dim ond ymgynghori ar ddatgymhwyso yr oedd LlC. Anogodd yr holl Aelodau i ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad.

Holodd y Cynghorydd Jones, o ystyried y gallai Polisi Cynllunio TAN 1 gael ei atal, a oedd modd ail-archwilio ceisiadau cynllunio lle y rhoddwyd pwysau i'r Polisi hwn ac y rhoddwyd caniatâd ond na roddwyd tystysgrifau eto. Eglurodd y Prif Swyddog bod yr holl geisiadau yn cael eu hadolygu yn sgil ymgynghoriad LlC. Ar gyfer ceisiadau cynllunio lle bo'r Pwyllgor wedi gwneud penderfyniad yn flaenorol, roedd y rhain wedi'u cymeradwyo yn unol â'r wybodaeth gywir ar y pryd. Anfonwyd llythyr at yr Arolygiaeth i dynnu sylw at atal TAN 1 ar gyfer unrhyw apeliadau sy'n cael eu hystyried. Cytunodd y byddai'n dosbarthu copi o restr o apeliadau sy'n aros am benderfyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar ôl y cyfarfod. Cadarnhaodd yr Uwch Gyfreithiwr nad oedd ymgynghori ar TAN 1 yn berthnasol i benderfyniadau cynllunio a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor.

<u>Eitemau i'w gohirio</u>

**Eitem 6.1 ar y Rhaglen – Cais amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl yn Megs Lane, Bwcle (057056).**

Cynghorodd y Prif Swyddog bod yr eitem uchod wedi'i hargymell i'w gohirio. Cynghorodd hefyd bod yr eitem ganlynol wedi'i thynnu'n ôl.

**Eitem 6.2 ar y Rhaglen – Cais Amlinellol i godi annedd yn Bayonne, Ffordd Hafod, Gwernaffield (058124)**

Cynigiodd y Cynghorydd Jones bod yr eitem yn cael ei gohirio a chafodd ei eilio a'i gytuno gan y Pwyllgor.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Bod eitem rhif 6.1 ar y rhaglen yn cael ei gohirio i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

## 6. <u>ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)</u>

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Cofnodi penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Cais Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

## 7. <u>AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL</u>

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 48 aelod o'r cyhoedd a dau aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 yp a daeth i ben am 2.50 yp)

……………………………………………

**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 23 MAI 2018**

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 057056 | Cyngor Tref Bwcle | Cais amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl yn Megs Lane, Bwcle | - | Bod yr eitem yn cael ei gohirio er mwyn cyflwyno adroddiad diwygiedig yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael. |
| 058124 | Cyngor Cymuned Gwernaffield | Cais amlinellol i godi annedd yn Bayonne, Hafod Moor, Gwernaffield | - | Tynnwyd y cais yn ôl. |
| 055798 | Cyngor Cymuned Treuddyn | Materion A Gadwyd Yn Ôl (Mynediad, Ymddangosiad, Tirlunio, Gosodiad a Graddfa) yn ofynnol yn ôl Amod Rhif 2 o ganiatâd cynllunio amlinellol cyf: 051831 yn Station Yard, Ffordd Corwen, Coed Talon. | Siaradodd y Cynghorydd Carolyn Thomas, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn adroddiad y swyddog, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057943 | Cyngor Cymuned Treuddyn | Cais Amlinellol i godi annedd unllawr y tu cefn i Acrefield yn Acrefield, Erw Ffynnon, Stryd y Frenhines, Treuddyn. | Siaradodd Mrs L Murtell yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr H. Evans, fel yr Asant, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Carolyn Thomas, fel Aelod lleol, yn erbyn y cais. | Bod yr eitem yn cael ei gohirio er mwyn cyflwyno adroddiad diwygiedig yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 058024 | Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton | Newid Defnydd ac estyniad i annedd i ffurfio Tŷ Amlfeddiannaeth yn 46 Gladstone Road, Brychdyn | Siaradodd y Cynghorydd Mike Lowe, fel Aelod Ward leol gyfagos, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr I. Hastie yn erbyn y cais. | Bod caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod yn groes i argymhelliad y swyddog ar y seiliau canlynol:<br><br>• Byddai'r datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal; a<br>• Byddai'r datblygiad yn achosi effaith annerbyniol ar barcio ar y stryd. |
| **APÊL** | | | **NODWYD** | |
| 056335 | | Apêl gan Glwb Golff Yr Wyddgrug yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio i gael gwared ar Amod Rhif 1 ynghlwm i ganiatâd cynllunio Cyf: 052686 i ganiatáu cadw rhwystr net amddiffynnol yn barhaol yng Nghlwb Golff Yr Wyddgrug, Ffordd Cilcain, Pantymwyn.<br>**WEDI'I GANIATÁU** | Nodwyd. | |